## P-04-456: Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru:

i. I roi terfyn ar wahaniaethu yn erbyn dioddefwyr dementia yng Nghymru sy’n gwneud cais am Arian Gofal Parhaus y GIG, drwy ganiatáu i’r categori gwybyddiaeth o angen (a elwir yn ‘barth’) godi i lefel ‘Difrifol’ yn y fersiwn Gymraeg o’r Offeryn Gwneud Penderfyniadau. Byddai hyn yn ei gwneud yn gydnaws â’r fersiwn Saesneg; a

ii. Bod Byrddau Iechyd Lleol uniongyrchol yn gweithredu’r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Arian Gofal Parhaus y GIG, yn gywir, o ran cymhwysedd cleifion a heb ystyried cyfyngiadau cyllidebol.

**Prif ddeisebydd:** Helen Jones

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 19 Chwefror 2013

**Nifer y llofnodion:** 1413